

# Rhaglen Sylfaen

## Bwrdd Iechyd Prifysgol

### Hywel Dda



## Tabl Cynnwys

1. Gwybodaeth am y lleoliad
2. Gwybodaeth gyffredinol am Ysbyty Bronglais

### Croeso i Orllewin Cymru

Mae Gorllewin Cymru yn cynnig cyfle gwych o ran ffordd o fyw, ac mae pob un o'n prif safleoedd yn Hywel Dda mewn ardaloedd arfordirol gyda thraethau hardd a mynyddoedd anhygoel o fewn pellter cyrraedd hawdd. Mae gweithgareddau hamdden cyffrous fel syrffio, beicio mynydd, pysgota, hwylio, heicio a cherdded i gyd ar gael yn yr ardal hon, sy'n enwog am ei harddwch naturiol eithriadol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwasanaethu cyfanswm poblogaeth o tua 385,615 ledled siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro.

### Gweithio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol

#### Hywel Dda

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cysylltu â Phrifysgolion Aberystwyth, Abertawe, Caerdydd a Bangor, yn ogystal â pherthynas waith dda â Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae llawer o'n Hymgyngorwyr yn Ddarlithwyr Cysylltiedig, yn Uwch Ddarlithwyr ac yn Athrawon Cyswllt.

### Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgell

Mae Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgell Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cynnig ystod eang o adnoddau, mewn print ac ar-lein, a gwasanaethau i holl Staff, Hyfforddeion a Myfyrwyr y Bwrdd Iechyd sydd ar leoliad.

Mae pob Llyfrgell yn cael ei rheoli gan Lyfrgellydd cymwys ac mae ein staff cyfeillgar a gwybodus yma i gefnogi eich gwybodaeth ar gyfer gofal cleifion, addysg, gwella ansawdd ac ymchwil.



## Aberystwyth



Mae Aberystwyth yn dref brifysgol lan môr fywiog, a adnabyddir fel 'Aber'. Mae pier a dau ddarn o lan y môr (yn y llun uchod) a harbwr, gyda'r castell yn edrych drosto. Mae byw a gweithio yma yn cynnig cydbwysedd o brofiad dysgu da ac ansawdd bywyd. Mae murmiad adnabyddus y Drudwy yn brofiad na ellir ei gollu, yn ogystal â machlud haul bendigedig arfordir y Gorllewin.



Mae clybiau chwaraeon a gweithgareddau awyr agored ar gael yn hawdd, gyda padlfyrddio, caiacio ac ati ar garreg ein drws.

Mae nifer o deithiau cerdded yn ac o gwmpas Aberystwyth, gyda nifer o fynyddoedd gerllaw i'w harchwilio. Gall pobl sy'n dwli ar fyd natur ymweld â chefn gwlad agored, gwarchodfeydd adar a chanolfan bywyd gwyllt morol ar hyd Bae Ceredigion.

Mae Aberystwyth yn gartref i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, sef llyfrgell adnau cyfreithiol cenedlaethol Cymru. Os ydych chi'n mwynhau'r Celfyddydau yna

mae'n rhaid ymweld â Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, sef y brysuraf yng Nghymru. Mae gan Aberystwyth sîn gerddoriaeth fyw ag enw da.

## Ysbyty Bronglais



Mae Ysbyty Bronglais yn eithaf unigryw, dyma'r unig Ysbyty Cyffredinol Dosbarth sy'n gwasanaethu Canolbarth Cymru, gyda llawer o achosion diddorol a Rhaglen Sylfaen gefnogol.

Mae'r ysbyty'n darparu meddygaeth frys, llawfeddygaeth gyffredinol, trawma ac orthopaedeg a gwasanaethau meddygol cyffredinol, gydag ystod o ddiagnosteg a therapïau. Darperir gwasanaethau bydwreigiaeth, menywod a phlant yma hefyd.

Mae Bronglais wedi cyflawni rhagoriaeth gyda:-

- Canlyniadau laparotomi brys gorau yng Nghymru a Lloegr ers sawl blwyddyn
- Canlyniadau methiant y galon gorau yng Nghymru
- Achrediad JAG (Uned Ysbyty Cyffredinol Dosbarth gyntaf Cymru i gyrraedd yr achrediad hwn)
- Cyfradd goroesi torasgwrn gwddf y ffemwr gorau yn y DU
- Yr unig ofal anesthetig a ddarperir gan ymgynghorydd yng Nghymru

- Yr amser cyflymaf i wneud sgan CT ac un o'r cyfraddau thrombolysis uchaf ar gyfer strôc yn y DU
- Gwasanaeth cyswllt torri asgwrn cyntaf yng Nghymru

## Cysylltiadau trafnidiaeth

Mae dwy brif gefnffordd sy'n cysylltu Aberystwyth â gweddill Cymru a'r DU. Y rhain yw'r A44 ar gyfer Dwyrain-Gorllewin a'r Gogledd-De A487.

Y dref yw terfynfa lein Aberystwyth – Amwythig sy'n stopio ym Machynlleth i deithio ymlaen ar Arfordir y Cambrian.

## Llety a Ddarperir gan yr Ysbyty

Cynigir llety ysbyty am ddim i bob Meddyg Sylfaen yng Nghymru trwy gydol Blwyddyn Sylfaen 1.

Mae'r llety ar y safle yn agos at y Ganolfan Addysg Feddygol a'r maes parcio. Mae'r *Doctors Mess* o fewn un o'r blociau llety.

Mae llety sengl wedi'i osod mewn fflatiau o 4 ystafell i bob cegin ac ystafell ymolchi, er bod gan rai ystafelloedd gyfleusterau ensuite. Mae gan safle'r ysbyty rai Fflatiau hefyd.

